

Cynllun Iaith Gymraeg

Cynllun Iaith Gymraeg a luniwyd yn unol â Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn unol ag adran 14(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 19 Ionawr 2011

Egwyddor o Gydraddoldeb

Mae'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth yn ymrwymedig i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Cyflwyniad

Y cynllun hwn

- 1 Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

- 2 Ni yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Ynysoedd.
 - 2.1 Rydym yn bodoli er mwyn diogelu iechyd a lles y cyhoedd.
 - 2.2 Rydym yn gosod y safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ymddygiad sydd eu hangen ar nyrsys a bydwreigedd er mwyn darparu gofal iechyd o safon uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaoedd.
 - 2.3 Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys a bydwreigedd y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cynnal safonau eu cod proffesiynol.
 - 2.4 Rydym yn sicrhau bod bydwreigedd yn ddiogel i weithio drwy osod rheolau ar gyfer eu hymarfer a'u goruchwyliaeth.
 - 2.5 Mae gennym brosesau teg i ymchwilio i honiadau a wneir yn erbyn nyrsys a bydwreigedd nad ydynt wedi dilyn y cod o bosibl.
- 3 Sefydlwyd yr NMC o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002. Rydym yn atebol i'r Senedd ac aelodau'r cyhoedd drwy'r Cyfrin Gyngor.
- 4 Y Cyngor sy'n gwneud y penderfyniadau sy'n llywio agenda strategol yr NMC. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod yr NMC yn cydymffurfio â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a Deddf Elusennau 1993. Mae'r Cyfrin Gyngor yn cynnwys 14 o aelodau lleyg a chofrestredig a benodir ganddo, gan gynnwys un aelod o'r pedair gwlad yn y DU.
- 5 Mae tua 660,000 o nyrsys a bydwreigedd ar ein cofrestr, gyda thua 30,000 ohonynt yn byw yng Nghymru.
- 6 Mae gennym ddwy swyddfa yn Llundain: 23 Portland Place, W1B 1PZ a 61 Aldwych, WC2B 4AE. Nid ydym yn rhagweld y bydd gennym swyddfa yng Nghymru yn y dyfodol agos; fodd bynnag rydym yn rheoleiddiwr sy'n gweithio ledled y DU.

Cynllunio a darparu gwasanaethau

- 7 Mae'r NMC yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth yn newis iaith y cwsmer fel rhan o wasanaeth o safon ac yn cydnabod anghenion diwylliannol ac ieithyddol y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Mae'r NMC yn gwbl ymrwymedig i'r egwyddor y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal.

Polisiâu a mentrau newydd

- 8 Mae'r NMC yn ymrwymedig i sicrhau bod nyrsys a bydwagedd yn diwallu anghenion y gymuned Gymraeg ei hiaith ac i weithio gyda phartneriaid yng Nghymru i sicrhau bod hyn yn digwydd.
- 9 Wrth i ni gynllunio a llunio polisiâu neu fentrau newydd, neu ddiweddarau polisiâu sy'n bodoli eisoes, byddwn yn asesu'r goblygiadau ieithyddol i sicrhau eu bod yn cyflawni'r ymrwymadau a wneir yn y cynllun hwn. Gwneir hyn fel rhan o broses asesu effaith ar gydraddoldeb (EqIA) yr NMC.
- 10 Yn ogystal:
 - 10.1 bydd y cyflogeion sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisi'r NMC yn cael gwybod am y cynllun iaith Gymraeg drwy hyfforddiant EqIA
 - 10.2 bydd yr holl staff yn cael gwybod am y cynllun drwy weithgareddau mewnol i godi ymwybyddiaeth
 - 10.3 bydd pob cyflogai newydd yn cael gwybod am y cynllun a'i gyfrifoldebau drwy becyn sefydlu
 - 10.4 bydd y Cyngor yn sicrhau bod polisiâu a mentrau newydd yn gyson â'r cynllun ac nad ydynt yn ei danseilio.
- 11 Byddwn yn datblygu canllawiau mewnol sy'n disgrifio'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r mesurau hyn.
- 12 Byddwn yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynghylch cynigion a fydd yn effeithio ar y cynllun.
- 13 Ni chaiff y cynllun ei addasu cyn cael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Darparu gwasanaeth

- 14 Rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn unol â chynnwys y cynllun.

Safonau'r gwasanaeth yn Gymraeg

- 15 Rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn Gymraeg a Saesneg. Caiff hyn ei nodi mewn dogfennau allweddol fel ein hadroddiad blynyddol a'r ymateb i adolygiad perfformiad y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd.
- 16 Byddwn yn:
 - 16.1 rhoi manylion y safonau gwasanaethau a gynigir ar ein gwefan
 - 16.2 monitro'r safonau gwasanaeth a'r broses o'u cyrraedd
 - 16.3 ymchwilio i wasanaethau iaith Gymraeg yn y dyfodol.

Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

- 17 Rôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd.
- 18 Rydym yn ymrwymedig i gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn ei ddewis iaith neu fformat.

Gohebiaeth ysgrifenedig a chyfathrebu dros y ffôn gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

- 19 Mae'r NMC yn croesawu ymholiadau ysgrifenedig gan aelodau o'r cyhoedd yn Gymraeg neu'n Saesneg. Caiff llythyrau neu negeseuon e-bost Cymraeg eu hateb yn Gymraeg gan ddarparu'r un lefel o wasanaeth â gohebiaeth Saesneg.
- 20 Nid oes gan yr NMC unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Felly, caiff galwyr eu cyfarch yn Saesneg. Os yw'r galwr yn dymuno parhau yn Gymraeg, bydd yn cael dewis parhau â'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno ei ymholiad i ni'n ysgrifenedig. Byddwn yn adolygu'r dewis o allu derbyn a delio â galwadau yn Gymraeg o'r cychwyn.
- 21 Bydd yr NMC yn cyhoeddi gweithdrefnau mewnol clir ar ddelio â gohebiaeth ysgrifenedig Gymraeg a chyswllt Cymraeg dros y ffôn ac yn sicrhau bod yr holl gyflogaion yn ymwybodol o'r protocolau perthnasol.
- 22 Ar hyn o bryd, nid ydym yn cyhoeddi unrhyw gylchlythyrau electronig nac unrhyw gylchlythyrau eraill ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn benodol. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth hon dros amser.
- 23 Caiff y gwasanaethau a gynigir yn Gymraeg eu nodi'n glir yn Gymraeg ar ein gwefan.
- 24 Caiff y broses o ddatblygu gwasanaethau iaith Gymraeg ar gyfer nyrsys a bydwagedd ei monitro a'i hadolygu.

Cyfarfodydd cyhoeddus

- 25 Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd sydd am fynychu ein cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru siarad Cymraeg neu Saesneg. Bydd hysbysiadau cyhoeddus, gwahoddiadau a phapurau eraill sy'n nodi trefniadau'r cyfarfodydd hyn yn egluro bod hyn yn bosibl. Gofynnwn am rybudd ymlaen llaw i'n helpu i wneud trefniadau.
- 26 Bydd hysbysiadau o gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 27 Bydd unrhyw agendâu a chofnodion o gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog.

Ein hwyneb cyhoeddus

Hunaniaeth gorfforaethol

- 28 Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru.
- 29 Enw swyddogol yr NMC yn Gymraeg yw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- 30 Mae gennym fersiynau Cymraeg o'n logo a'n hunaniaeth gorfforaethol a ddefnyddir fel rhan o weithgareddau'r NMC yng Nghymru, er enghraifft mewn digwyddiadau, cynadleddau, cyhoeddiadau a hysbysebion dwyieithog.
- 31 Mae gennym fersiynau Cymraeg o ddeunydd ysgrifennu swyddogol a ddefnyddir wrth gyfathrebu yn Gymraeg.

Cyhoeddiadau

- 32 Rydym yn cyhoeddi deunydd at amrywiaeth o ddibenion. Bydd gwybodaeth ar gyfer cleifion ac aelodau'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys:
 - 32.1 Gofal a pharch bob amser: Beth y gallwch ei ddisgwyl gan nyrsys
 - 32.2 Cymorth i rieni: Sut y gall goruchwyliaeth a goruchwylwyr bydwragedd eich helpu
 - 32.3 Gwneud cwyn am nyrs neu fydwraig
- 33 Bydd gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd sy'n dystion mewn achosion cymhwyster i ymarfer hefyd ar gael yn Gymraeg.
- 34 Bydd safonau, canllawiau a deunyddiau technegol neu arbenigol eraill ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac nid y cyhoedd yn benodol yn Saesneg. Fodd bynnag, byddwn yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais.
- 35 Mae holl ddogfennau'r NMC ar gael am ddim ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os codir tâl am gyhoeddiad yn y dyfodol, bydd y copïau Cymraeg, Saesneg a dwyieithog yr un pris.

Hysbysebu cyhoeddus

- 36 Pan fyddwn yn cynnal ymgyrchoedd hysbysebu a chyhoedduswydd yng Nghymru byddwn yn trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal. Bydd hysbysebion ar hysbysfyrddau a safleoedd ffisegol eraill yn Nghymru yn ddwyieithog, yn ogystal â hysbysebion mewn cylchgronau a phapurau newydd a ddsberthir yng Nghymru yn unig.

Datganiadau i'r wasg

- 37 Bydd yr NMC yn cyhoeddi datganiadau dwyieithog i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru pan eu bod yn ymwneud â materion Cymreig yn benodol. Caiff cyfieithiadau eu rhoi i newyddiadurwyr mewn cynadleddau i'r wasg yng Nghymru ar gais.
- 38 Weithiau, efallai na fydd yn bosibl trefnu cyfieithiad o ddatganiad brys i'r wasg cyn ei gyhoeddi. Mewn achosion o'r fath, caiff cyfieithiad ei drefnu o fewn 24 awr yn ystod yr wythnos.

Gwefan yr NMC

- 39 Mae gwefan yr NMC yn cynnwys adran benodedig ar gyfer gwybodaeth i'r cyhoedd, sy'n cynnwys manylion craidd ein gwaith. Bydd yr adran hon ar gael yn Gymraeg, ynghyd â fersiynau ar-lein o'n cyhoeddiadau Cymraeg.

Achosion cymhwyster i ymarfer

- 40 Mae Erthygl 22(7) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn nodi bod yn rhaid cynnal gwrandawiadau sy'n ymwneud â chymhwyster i ymarfer a chyfarfodydd cysylltiedig yn y wlad yn y DU lle mae'r nyrs neu'r fydwraig wedi'i lleoli. Rydym yn cynnal tua 100 o wrandawiadau yng Nghymru bob blwyddyn.
- 41 I osgoi unrhyw amheuaeth, dylid nodi mai dim ond i achosion cymhwyster i ymarfer a gweithdrefnau apelio a gynhelir yng Nghymru y mae'r trefniadau a amlinellir yn y cynllun hwn yn gymwys.

Aelodau'r cyhoedd a chymhwyster i ymarfer

- 42 Mae gennym brosesau teg i ymchwilio i gyhuddiadau a wneir yn erbyn nyrsys a bydwragedd nad ydynt o bosibl wedi cydymffurfio â'r cod. Gall atgyfeiriadau gael eu gwneud gan gyflogwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, cyrff cyhoeddus eraill neu aelodau'r cyhoedd.
- 43 Bydd gwybodaeth i'r cyhoedd am sut i wneud cwyn am nyrs neu fydwraig yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn croesawu atgyfeiriadau gan y cyhoedd yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 44 Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, os oes angen ymateb, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg. Bydd ein hamser targed ar gyfer ymateb yr un fath â'r amser targed ar gyfer ymateb i lythyrau a ysgrifennir yn Saesneg. Bydd unrhyw ddogfennau amgaeedig a anfonir gyda llythyrau yn ddwyieithog, lle bo hynny'n bosibl.

- 45 Os rhoddir digon o rybudd, bydd yr NMC yn galluogi aelodau'r cyhoedd sy'n dystion yng Nghymru i roi eu datganiadau i ymchwilyr yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan ddefnyddio cyfieithwyr â chymwysterau addas.

Gwrandawiadau

- 46 Gall unigolyn siarad Cymraeg mewn gwrandawriad. Pan gawn wybod bod unigolyn cofrestredig neu rywun sy'n gysylltiedig â'i achos am siarad Cymraeg, byddwn yn ei alluogi i wneud hynny drwy ddefnyddio cyfieithwyr â chymwysterau addas. Mae angen 28 diwrnod o rybudd arnom i'n galluogi i wneud hyn yn effeithiol.
- 47 Pan gaiff tystion eu galw yn ystod gwrandawriad, bydd swyddog y Cyngor sy'n gweinyddu'r llw neu gadarnhad yn eu hysbysu y gallant dyngu llw neu gadarnhad yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gweithredu'r cynllun

Cyflogeion a'r cyfrifoldeb

- 48 Bydd y Cyfarwyddwr Materion Allanol yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu a monitro'r cynllun o ddydd i ddydd.
- 49 Mae'r holl reolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy.
- 50 Bydd gan bob aelod o staff gyfrifoldeb am gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â'r cynllun. Bydd yr holl staff yn cael gwybod am y cynllun a'r goblygiadau i'w gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Hyfforddiant galwedigaethol Cymraeg

- 51 Rydym yn annog ac yn cynorthwyo unrhyw aelod o staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg er mwyn rhyngweithio'n well â'r cyhoedd yng Nghymru, yng nghydestun ei amcanion cyffredinol ac amcanion y sefydliad.

Recriwtio yng Nghymru

- 52 Os yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, bydd yr NMC yn nodi hynny, ac yn nodi lefel y medrusrwydd angenrheidiol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y disgrifiadau swydd a'r manylebau person hefyd.
- 53 Ar gyfer y swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd yr hysbysebion swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg a ddsberthir yng Nghymru yn bennaf, ac yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Byddant hefyd yn ymddangos yn ddwyieithog ar wefan yr NMC.

Contractwyr trydydd parti

- 54 Bydd contractwyr trydydd parti â chontractau newydd neu gontractau wedi'u hadnewyddu a fydd yn cyfathrebu yng Nghymru yn derbyn gwybodaeth am gynllun iaith Gymraeg yr NMC ac unrhyw rwymedigaethau penodol. Yn benodol, tynnir sylw at rannau perthnasol o'r cynllun y bydd disgwyl iddynt eu gweithredu.
- 55 Caiff perfformiad yn erbyn contract ei fonitro o ran cydymffurfiaeth.

Amserlenni a targedau

- 56 Caiff yr amserlenni a'r targedau ar gyfer gweithredu ein cynllun eu nodi yn ein cynllun ngweithredu (paragraff 64).

Monitro'r cynllun

- 57 Byddwn yn monitro gweithrediad y cynllun yn unol â'r cynllun gweithredu ac yn llunio adroddiad ar gynnydd i Gyngor yr NMC yn flynyddol. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd.
- 58 Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth â'r cynllun ac yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd hwn yn:
- 58.1 nodi a ydym yn cydymffurfio â'r cynllun ar hyn o bryd
 - 58.2 nodi a yw'r cynllun yn cael ei reoli'n briodol
 - 58.3 dadansoddi perfformiad adrannol a chorfforaethol, er mwyn sicrhau cysondeb
 - 58.4 asesu ac ystyried themâu allweddol wrth weithredu'r cynllun
 - 58.5 nodi unrhyw wendidau sylfaenol a llunio cynllun gweithredu, gan gynnwys amserlen, i fynd i'r afael â hwy.
- 59 Ceir crynodeb o'n perfformiad yn ein hadroddiad blynyddol.
- 60 Yn ystod trydedd flwyddyn gweithredu'r cynllun byddwn yn paratoi adroddiad gwerthuso a fydd yn asesu ac yn gwerthuso ein perfformiad o ran gweithredu'r cynllun. Byddwn hefyd yn adolygu ac yn diweddarau'r cynllun iaith Gymraeg ar yr un pryd, lle bo hynny'n briodol.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun

- 61 Rydym yn croesawu cwynion, sylwadau ac ymholiadau. Caiff cwynion am weithredu agweddau o'r cynllun eu hystyried fel rhan o weithdrefn cwynion arferol yr NMC. Gall cwynion gael eu cyflwyno yn y Gymraeg neu'r Saesneg a dylid eu cyfeirio at y Swyddfa'r Prif Weithredwr, Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 23 Portland Place, Llundain, W1B 1PZ, neu ceoffice@nmc-uk.org. Mae gwybodaeth bellach am ein proses gwynion ar ein gwefan.

- 62 Pan fyddwn yn lansio'r cynllun, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ac yn rhoi'r cynllun ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'n rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru am y cynllun.
- 63 Bydd staff hefyd yn cael gwybod am y cynllun a chaiff ei gynnwys yn ein deunydd sefydlu.